

Tyfu a dysgu

“Cadw lygad arnat ti dy hun ac ar yr hyfforddiant a roddi, a dal ati yn y pethau hyn. Os gwnei di felly, yna fe fyddi’n dy achub dy hun a’r rhai sy’n gwrando arnat.” (adn. 16)

Beth am ddarlflen 1 Timotheus 4:1–16 ac yna myfyrio

Fel y dywedwyd ddoe, er nad ydym yn gwadu’r llawenydd sydd yn deillio o wasanaethu’r Iesu, mae yna adegau pan mae ei ddilyn yn anodd iawn. Mae amharodrwydd i wynebu’r gwirionedd yma yn wiriondeb. Mae rhai Cristnogion yn mynnu na ddylem byth â chydabod anawsterau; dylem fod yn bositif bob amser. Dyma pam wrth ichi gwrdd â’r bobl yma a gofyn: “Su’ mae?” maent yn ateb: “Ardderchog! Popeth yn dda.” Wel, does dim o’i le mewn cael golwg bositif ar eich bywyd. Mae’n well na bod yn negyddol ond mae’n rhaid bod yn realistig. Nid bod yn negyddol yw wynebu’r ffaith fod bywyd yn gallu bod yn anodd o bryd i’w gilydd. Mae gwadu realiti yn wadiad o wirionedd, ac mae’n effeithio ar ein personoliaeth gan fod byw mewn byd afreal yn eich gwneud yn annigonol i wynebu anawsterau yn y dyfodol.

Gofynnais i ŵr yn ddiweddar: “Sut mae pethau yn mynd yn dy fywyd?” Oedodd am eiliad ac yna dweud: “Wyt ti am glywed yr ateb Cristnogol arferol neu wyt ti am glywed y gwir?” Dywedais wrtho: “Wel, buaswn yn gwerthfawrogi ateb gonest.” A’i ateb oedd: “Wel, rwy’n tyfu ac yn dysgu.” Dyna yw y bywyd Cristnogol. O bryd i’w gilydd, mae yna fwy o ddyddiau pryd byddwn yn tyfu a dysgu na dyddiau o lawenydd pur, digymysg.

Yn ôl un Cristion, o bryd i’w gilydd mae bywyd Cristnogol fel cymryd tri cham yn ôl, tri cham ymlaen, ac yna un cam yn ôl. Mae’r bywyd Cristnogol yn fater o ddyfalbarhau ar waethaf yr anawsterau. Gall Duw roi gras inni wneud hyn ond rhaid inni ddefnyddio ein holl ewyllys yn y frwydr hon. Mae angen inni ymddiried ac mae rhaid hefyd wrth ymdrech. Yr ydym am barhau i ymddiried a pharhau i ymdrech. Rhaid inni wneud y ddau os ydym am dyfu yn ysbrydol.

Beth am fynd ymlaen i ddarlflen:

2 Cor. 11:16–33; Actau 26:9–29

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd profiadau Paul mewn bywyd?
2. Pam y bu iddo ddyfalbarhau?

Gweddi

Rwy’n diolch i ti, o Dad, wrth imi ymddiried ynot ti, fod fy ymddiriedaeth yn troi yn ymdrech trwy dy ras. Wrth i mi ymroi i ti ac i dy Fab ac i’w deyrnas ef, yr wyf yn etifeddu ei rym a’i allu yn fy nghalon ac yn fy mywyd. Caniatâ i mi feddiannu y grym yma hyd y diwedd. Yn enw Iesu. Amen.